



Gwasanaeth Ymgynghori Fideo GIG Cymru



Defnyddio Ymgynghoriadau Fideo mewn
Gofal Sylfaenol:
Canllaw Defnyddiwr i Gleifion

Mae Gwasanaeth Ymgynghori Fideo GIG Cymru yn gydweithrediad rhwng:




GIG
CYMRU
NHS
WALES | Gwasanaeth
Gwybodeg
Informatics
Service



Dilynwch y ddolen hon i fideo ar [Sut i ddefnyddio Attend Anywhere ar gyfer cleifion \(isdeitlau Cymraeg\)](#)

Bydd gofyn i chi roi ychydig o fanylion (enw, dyddiad geni a rhif ffôn cyswllt) cyn gallu ymuno â'r alwad. Dim ond er mwyn i'r clinigydd allu adnabod y claf cywir y defnyddir y manylion hyn. Ar ôl yr alwad fideo, caiff y manylion hyn eu dileu.



Cyn i'r alwad ddechrau, byddwch yn gweld gwybodaeth debyg i'r rhestr isod, ond gallai hyn newid yn dibynnu ar wasanaeth eich Meddygfa.

Enghraifft o wybodaeth a gyflwynir i alwyr cyn iddynt ymuno â galwad yn yr Ystafelloedd Aros:

EWCH YMLAEN GYDA'CH YMGYNGHORIAD FIDEO DIM OND OS YW WEDI'I DREFNU GYDA'CH MEDDYG NEU GLINIG/MEDDYGFA.

- NID gwasanaeth brys yw hwn. Mewn argyfwng, ffoniwch 999.
- Nid yw'r alwad hon yn cael ei recordio.
- Bydd pawb sy'n mynychu'r ymgynghoriad gyda chi yn cael eu cyflwyno.
- Bydd eich fideo yn agor mewn ffenestr newydd
- Os cewch unrhyw broblemau, cliciwch y botwm Adnewyddu/Refresh.

Yn ystod eich galwad:

- Os cewch unrhyw broblemau, cliciwch y botwm Adnewyddu gwyrdd (ar frig y gornel dde).
- Dylech osgoi pwyntio'r camera tuag at ffenestr neu olau llachar.
- I ddewis camera neu feicroffon gwahanol, cliciwch eicon y camera ar ochr dde uchaf ffenestr y porwr, dewiswch y dyfeisiau perthnasol, ac yna cliciwch ar y botwm Adnewyddu.

Apwyntiadau Drwy Fideo

Pan fo'n briodol, gallwch gael ymgynghoriad ar-lein drwy alwad fideo.

Mae galwadau fideo mor gyfleus â galwad ffôn, gyda'r fantais ychwanegol o allu cyfathrebu wyneb yn wyneb.

Gall arbed amser ac arian i chi, ac mae'n dod â'ch gofal yn agosach at eich cartref.



Yn hytrach na theithio i'ch apwyntiad, byddwch yn mynd i mewn i ardal aros ar-lein y clinig. Hysbysir y gwasanaeth iechyd pan fyddwch yn cyrraedd, a bydd eich clinigydd yn ymuno â chi pan fydd yn barod.

Nid oes angen creu cyfrif.

Ni chaiff unrhyw wybodaeth a nodwch ei storio.

✓ **Beth sydd ei angen arnaf i wneud galwad fideo?**

✓ **Cysylltiad da â'r rhyngwrwyd**
Os gallwch wyllo fideo ar-lein (e.e. YouTube) gallwch wneud galwad fideo

✓ **Ardal breifat, wedi'i goleuo'n dda, lle na fydd tarfu arnoch** yn ystod yr ymgynghoriad

✓ **Un o'r rhain:**

- ✓  Porwr gwe Google Chrome ar gyfrifiadur desg neu liniadur, neu ar dabled Android neu Smartphone
- ✓  Porwr gwe Safari ar Apple iMac, MacBook, iPad, neu iPhone

✓ **Gwe-gamera, seinyddion a meicroffon** eisoes wedi'u hadeiladu i mewn i liniaduron neu ddyfeisiau symudol

🔒 **A yw'n ddiogel?**

Mae galwadau fideo yn ddiogel; diogelir eich preifatrwydd.

Mae gennych eich ystafell fideo breifat eich hun y gall clinigwyr awdurdodedig yn unig fynd iddi.

✓ **Faint o ddata rhyngwrwyd y byddaf yn ei ddefnyddio?**

Dydych chi ddim yn defnyddio unrhyw ddata wrth aros i glinigydd ymuno â chi.

Mae fideo Mynychu yn Unrhyw Le yn defnyddio swm tebyg o ddata i Skype® neu FaceTime®.

£ **Beth yw cost galwad fideo?**

Mae'r alwad fideo am ddim (heblaw am eich defnydd o'r rhyngwrwyd).



Defnyddwyr ffonau clyfar a thabledi

Os gallwch, cysylltwch â rhwydwaith Wi-fi cartref neu waith i osgoi defnyddio eich lwfans data symudol.

Paratoi i wneud galwadau fideo

Sicrhewch eich bod yn defnyddio un o'r porwyr gwe canlynol



Google Chrome

Windows 7+, Android 5.1+,
MacOS 10.11+




Apple Safari

MacOS 10.12+, iOS 11.4+,
iPadOS 13+



1

Ar y dudalen we hon, cliciwch ar y botwm **'Start video call'** a dilynwch y cyfarwyddiadau




2

Arhoswch yn eich ystafell fideo breifat eich hun



3

Bydd eich darparwr gofal iechyd yn eich gweld yn cyrraedd ciw'r ardal aros ...



4

... ac yn ymuno â chi yn eich ystafell fideo pan fydd yn barod

Beth ddylwn ei wneud os bydd rhywbeth ddim yn gweithio?

nhs.attendanywhere.com/troubleshooting

Statws Gwasanaeth ar hyn o bryd:

status.nhs.attendanywhere.com

